

RHAID i bob ymgeisydd ddefnyddio'r ffurflen hon. Mae hyn yn cynnwys aelodau cyfredol sy'n gwneud cais i'w penodi am gyfnod dilynol.

MANYLION PERSONOL

Cyfenw / Enw'r teulu	Enw(au) cyntaf	Enw a ffefrir	Teitl (Mr, Ms, ac ati)

Cyfeiriad e-bost	Ffôn symudol	Ffôn cartref	Ffôn gwaith

Cyfeiriad cartref	A ydych yn aelod presennol o'r Tribiwnlys?
	A ydych yn gadeirydd presennol o'r Tribiwnlys?
	Os ydych yn gadeirydd presennol, a ydych yn gwneud cais am estyniad i'r rôl hon yn ogystal ag adnewyddu eich aelodaeth?

Mae rhai pobl yn anghymwys i fod yn aelod o'r Tribiwnlys. Dangosir y rheoliad statudol sy'n gwneud hyn yn ofynnol mewn atodiad i'r ffurflen hon. Gofynnir y cwestiynau isod er mwyn sefydlu a ydych chi'n unigolyn nad yw'n gymwys.

A yw'n ofynnol i chi gael trwydded waith i weithio yn y Deyrnas Unedig?	
---	--

A oes gorchymyn methdaliad yn eich herbyn chi ar hyn o bryd?	
--	--

A oes gennych chi drefniant cyfreithiol neu weithred cyfansoddiad gyda chredydwy'r o ran dyledion heb eu talu'n gyfredol?	
---	--

A fu gennych chi drefniant cyfreithiol neu weithred cyfansoddiad gyda chredydwy'r o ran dyledion heb eu talu nas ad-dalwyd yn llawn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?	
---	--

A ydych chi wedi eich cael yn euog o drosedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf a chael dedfryd o garchar am dri mis neu ragor (hyd yn oed os cafodd y ddedfryd ei gohirio)?	
---	--

A ydych chi wedi'ch anghymwyso rhag bod yn aelod o'r awdurdod lleol yn gyfredol?	
--	--

Os oes gennych briod neu bartner sifil, a ydyn nhw'n gyflogai i'r Tribiwnlys? (Atebwch Ydynt, Nac ydynt, neu Ddim yn berthnasol.)	
---	--

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

Mae'n ofynnol i aelodau'r Tribiwnlys deithio i gyfarfodydd tribiwnlys a sesiynau hyfforddiant. Gall hefyd fod yn ofynnol iddynt ddefnyddio meddalwedd fideo gynadledda gartref at ddibenion y tribiwnlys. Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r gofynion hyn.

A oes gennych chi ffurflen drwydded yrru sy'n caniatáu i chi yrru yn y Deyrnas Unedig heb gydymaith?	
--	--

A oes gennych chi gludiant personol at eich defnydd?	
Os nad oes gennych, sut fydddech chi'n cyflawni'r teithio sy'n ofynnol?	

A oes gennych chi ddyfais cyfrifiadurol a mynediad i'r rhyngwyd?	
--	--

A oes gennych chi brofiad o ddefnyddio meddalwedd fideo gynadledda (Zoom, er enghraifft)?	
---	--

A oes gennych chi ystafell neu wagle addas lle gallech chi ddefnyddio fideo gynadledda at ddibenion tribiwnlys (h.y. lle sy'n dawel ac yn debygol o beidio cael unrhyw (neu fawr ddim) tarfu?	
---	--

Mae angen i aelodau'r Tribiwnlys ddod i sesiynau hyfforddiant. Mae angen iddynt fod yn barod i ddod i ddrifiwnlysoedd yn rheolaidd hefyd, ac weithiau gallai'r diwrnod gwaith fod yn hir. Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r materion hyn.

Cynhelir digwyddiadau hyfforddiant mewn lleoliadau ar draws Cymru a gallai'r amser teithio fod yn ddwyawr neu ychydig yn fwy i'r naill gyfeiriad. Weithiau mae'r digwyddiadau eu hunain yn cael eu cynnal o 10am tan 4pm.	
A ydych chi'n fodlon rhoi'r amser sy'n ofynnol a gwneud y teithio sy'n ofynnol er mwyn mynychu sesiynau hyfforddiant?	

Mae'n rhaid i aelodau'r Tribiwnlys ddod i un digwyddiad hyfforddiant y flwyddyn o leiaf. Os nad ydynt yn mynychu byddant yn cael eu hatal o wrandawiadau tribiwnlys.	
A ydych chi'n fodlon mynychu un digwyddiad hyfforddiant y flwyddyn o leiaf?	

Gallai'r amser teithio cyn ac ar ôl gwrandawiadau fod hyd at 1½ awr y naill ffordd a gallai gwrandawiadau tribiwnlys fod o 10am tan 4pm, sy'n ddiwrnod gwaith o hyd at 9 awr.	
A ydych chi'n fodlon rhoi'r amser sy'n ofynnol er mwyn bod mewn gwrandawiadau tribiwnlys?	

Mae'r Tribiwnlys yn ymdrin ag achosion Tribiwnlys yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn rhoi gwasanaeth ansawdd uchel i ddefnyddwyr tribiwnlys sy'n siarad Cymraeg mae'n ofynnol i gyfran o'n haelodau fod yn rhugl yn y Gymraeg. Bydd y manylion isod yn ein cynorthwyo i ddeall sgiliau Cymraeg ymgeiswyr (o ddim sgiliau Cymraeg i gwbl rhugl). Llenwch BOB rhan, os gwelwch yn dda. (NID yw diffyg sgiliau Cymraeg yn gwneud eich cais yn annilyd.)

A ydych chi'n ystyried eich hun yn gwbl rhugl yn y Gymraeg?	
---	--

Edrychwch ar y tabl Sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y ddogfen hon a dywedwch wrthym sut rydych chi'n asesu eich galluedd eich hun yn y meysydd isod. Nodwch Lefel 1, 2, 3, 4 neu 5 fel bo'n briodol; neu "0" (sero) os nad oes gennych chi unrhyw sgiliau Cymraeg.
--

Gwranddo:		Siarad:	
Darllen:		Ysgrifennu:	

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

Yn ogystal â bod yn ddiuedd a diragfarn wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gael ei weld fel diduedd a diragfarn bob amser. Felly rydym ni'n dilyn camau i sicrhau nad oes gan bartïon sail i honni fod gan aelod wrthdaro buddiannau wrth wrando ar eu hachos. Er enghraifft, rydym ni'n osgoi rhoi aelodau sy'n gynghorwyr lleol ar baneli sy'n gwrando ar achos yn ardal y cyngor perthnasol. Rydym ni'n eu rhoi ar baneli mewn ardaloedd eraill. Atebwch y cwestiynau isod a rhowch unrhyw fanylion, os yw'n berthnasol, am unrhyw swydd sydd gennych neu a oedd gennych chi a allai effeithio ar ddirnadaeth unrhyw barti ynghylch a yw'r panel yn ddiuedd.

A ydych chi'n aelod etholedig, neu'n aelod staff, unrhyw fath o awdurdod lleol?

Os ydych chi, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda.

A ydych chi wedi bod yn aelod etholedig, neu'n aelod staff, unrhyw fath o awdurdod lleol erioed?

Os ydych chi, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda – yn cynnwys pryd y gwnaethoch ddarparu eich cysylltiad â'r awdurdod.

A ydych chi, neu a fuoch chi erioed yn aelod o Gorff Noddedig gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio Tribiwnlys Prasio Cymru, os ydych chi'n gwneud cais i gael eich ailbenodi?)

Os felly, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

A oes unrhyw rolau eraill rydych chi'n eu gwneud neu wedi'u gwneud, neu amgylchiadau sy'n berthnasol i chi, y byddech chi'n hoffi tynnu sylw'r Tribiwnlys atynt o ran y ddirnadaeth o fod yn ddiuedd?

Os felly, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

EICH RHESYMAU AM WNEUD CAIS I FOD YN AELOD TRIBIWNLYS

Rhowch eich rhesymau am ymgeisio i fod yn aelod tribiwnlys yn y blwch isod, os gwelwch yn dda.

Fy rhesymau i am wneud cais i fod yn aelod tribiwnlys yw

YMRWYMIAD A DATGANIAD AELODAETH

Mae'n ofynnol i unigolyn a benodir fel aelod tribiwnlys wneud datganiad ymrwymiad. Dangosir y datganiad isod.

Dangoswch y byddech yn cytuno i'r ymrwymiad hwn, pe baech chi'n cael eich penodi, trwy ateb y cwestiwn a rhoi eich enw yn y blwch islaw'r datganiad, os gwelwch yn dda.

YMRWYMIAD A DATGANIAD AELODAETH

Rwy'n cytuno i gydymffurfio gyda'r ymrwymadau aelodaeth isod ac yn datgan fod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn fy nghais am aelodaeth Tribiwnlys Priso Cymru'n gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm credo.

- Rwy'n ymgymryd i weithredu'n unol â'r *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus* fel aelod o Dribiwnlys Priso Cymru, fel yr hyrwyddwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. (Gweler Atodiad 1).
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu'r Tribiwnlys Priso ar unwaith os wyf yn anghymwys i fod yn aelod. (Gweler Atodiad 2 sy'n rhestru'r categorïau unigolion anghymwys.)
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu'r Tribiwnlys Priso ar unwaith os wyf yn cael fy ethol yn aelod o awdurdod lleol.
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu'r Tribiwnlys Priso ar unwaith ynghylch unrhyw newid yn fy nghyflogaeth neu fy nghysylltiadau â chyrff eraill neu unigolion eraill y gellir eu dirnad gan ddefnyddwyr y gwasanaeth tribiwnlys fel cysylltiadau sy'n meddu ar y potensial i effeithio ar fod yn ddiuedd wrth weithredu fel aelod tribiwnlys.
- Rwy'n ymrwymo i neilltuo unrhyw dueddiadau personol neu wleidyddol wrth ystyried unrhyw apêl gerbron y Tribiwnlys Priso.
- Rwy'n ymrwymo i fod ar gael ar gyfer o leiaf un cyfarfod y Tribiwnlys Priso bob mis.
- Rwy'n ymrwymo i fynychu'r cyrsiau hyfforddiant sy'n ofynnol. Rwy'n deall, os nad ydw i'n mynychu'r cyrsiau hyfforddiant sy'n ofynnol, gallaf gael fy atal rhag eistedd fel aelod.
- Rwy'n ymrwymo i hawlio'r treuliau hynny sy'n daladwy'n briodol i mi a chyflwyno fy hawliadau'n unol â'r Polisi Treuliau Aelodau. (Nodir crynodeb o brif gydrannau'r treuliau y gellir eu hawlio yn Atodiad 3.)
- Rwy'n ymrwymo i ddilyn cod gwisg y Tribiwnlys Priso. (Gweler Atodiad 2.)
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu'r Tribiwnlys Priso'n ddioed ynghylch unrhyw newid o ran fy nghyfeiriad a'm manylion cyswllt.

A ydych chi'n cytuno i ymrwymo i'r Ymrwymiad a Datganiad Aelodaeth os cewch eich penodi fel aelod o Dribiwnlys Priso Cymru?

Fy enw llawn i yw:

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

YMRWYMIAD AELODAETH – ATODIAD 1

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Cyflwynwyd y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn 1995 yn wreiddiol ac roeddynt yn cael eu hadnabod fel 'Egwyddorion Nolan'. Cawsant eu diffinio gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a sefydlwyd gan y Prif Weinidog John Major yn 1994. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fodoli heddiw. Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor oedd yr Arglwydd Nolan. Mae geiriad y saith egwyddor wedi newid yn achlysurol i gynorthwyo gyda gwella dealltwriaeth, ond mae eu hanfod wedi parhau'n gyson.

Yr egwyddorion yw:

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

Uniondeb

Rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus osgoi rhoi eu hunain dan unrhyw ymrwymiad i bobl neu sefydliadau a allai geisio eu dylanwadu'n amhriodol wrth eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael budd ariannol neu fudd materol arall i'w hunan, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid datgan unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae'n rhaid iddynt fod yn ddarostyngedig i'r craffu sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.

Bod yn agored

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid atal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

Gonestrwydd

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus fod yn onest.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin erraill â pharch. Dylent hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn gadarn a herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

<Cafodd y diffiniadau uchod eu gwirio ar gyfer yr Atodiad hwn ym mis Mai 2023>

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

YMRWYMIAD AELODAETH – ATODIAD 2

Categoriâu Unigolion sy'n anghymwys

Ni chaiff unigolion fod yn aelod Tribiwnlys Prasio neu bydd yn peidio â bod yn aelod Tribiwnlys Prasio os yw ef neu hi'n dod yn unigolyn wedi'i anghymhwys fel y diffinnir yn rheoliad 14 Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (fel y'i diwygiwyd). Dangosir cynnwys rheoliad 14 isod.

Anghymhwys o aelodaeth y Tribiwnlys Prasio

- (1) Bydd person yn anghymwys i'w benodi yn aelod, neu i barhau yn aelod o'r Tribiwnlys Prasio –
 - (a) os yw'r person hwnnw wedi ei wneud yn fethdalwr; neu
 - (b) os yw'r person hwnnw wedi gwneud trefniant gyda chredydwy; neu
 - (c) os yw'r person hwnnw, o fewn y pum mlynedd yn union cyn ei benodi neu ers pan ei benodwyd, wedi ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw dramgwydd ac y gorchynnwyd ei garcharu am gyfnod o dri mis neu ragor, heb yr opsiwn o ddirwy, pa un a ohiriwyd y ddedfryd honno ai peidio; neu
 - (ch) os yw'r person hwnnw wedi ei anghymhwys ar y pryd rhag bod yn aelod o awdurdod lleol; neu
 - (d) os yw'r person hwnnw neu'i briod neu'i bartner sifil yn gyflogai neu'n dod yn gyflogai i'r Tribiwnlys Prasio.
- (2) Bydd anghymhwysiad person am y rheswm ym mharagraff (1)(a) yn dod i ben–
 - (a) oni ddirymir y gorchymyn methdalau yn erbyn y person hwnnw'n gynharach, pan ryddheir y person hwnnw o fethdaliad; neu
 - (b) os dirymir y gorchymyn methdalau felly, ar ddyddiad y dirymu.
- (3) Bydd anghymhwysiad person am y rheswm ym mharagraff (1)(b) yn dod i ben –
 - (a) os telir dyledion y person hwnnw'n llawn gan y person hwnnw, ar y dyddiad y cwblheir y taliad; neu
 - (b) mewn unrhyw achos arall, ar ddiwedd pum mlynedd ar ôl y dyddiad y cyflawnir telerau'r weithred gompowndio neu'r trefniant.
- (4) At ddibenion paragraff (1)(c), ystyrir mai dyddiad y gollfarn fydd y dyddiad cyffredin pan ddaw'r cyfnod a ganiateir ar gyfer apelio i ben, neu, os gwneir apêl o'r fath, y dyddiad pryd y penderfynir yr apêl yn derfynol, neu y rhoddir y gorau i'r apêl, neu ei bod yn methu oherwydd methiant i erlyn.

Cod Gwisg y Tribiwnlys Prasio

Mae'r Tribiwnlys Prasio yn gorff barnwrol. Mae hyn yn golygu y bydd gan y rhai sy'n ymddangos gerbron y tribiwnlys ddisgwyliad rhesymol y bydd y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau wedi'u gwisgo mewn modd trwsiadus. Dylid ystyried edrychiad aelodau mewn tribiwnlys a disgwylir i ddynion wisgo siwt neu siaced a thei ac i ferched wisgo dillad busnes addas. Efallai na fydd dillad fel jins neu siorts a phenwisg (ac eithrio ar sail crefyddol) yn cael eu hystyried yn dderbyniol.

Er mwyn cynnal dirnadaeth y partion ynghylch didueddrwydd y Tribiwnlys dylai aelodau osgoi gwisgo tei neu fathodyn neu unrhyw eitem arall sy'n cefnogi sefydliad neu achos. Gall arwyddion o gefnogi sefydliadau neu achosion na fyddai'n cael eu hystyried yn ddadleuol gan lawer o bobl (megis tei clwb neu fathodyn elusen) ysgogi cwestiynau ym meddwl rhai ynghylch rhagueddiad aelod.

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

YMRWYMIAD AELODAETH – ATODIAD 3

Crynodeb y prif dreuliau y gellir hawlio amdanynt

COSTAU TEITHIO

Mae gan aelodau'r hawl i hawlio costau teithio pan fo'n angenrheidiol teithio i gyflawni dyletswydd cymeradwy.

Y gyfradd ar gyfer car modur preifat yw 50.5 ceiniog y filltir.

Gellir hawlio *taliad ychwanegol am deithiwr* o 5 ceiniog y filltir am bob teithiwr pan yn teithio gyda theithwyr sy'n cyflawni'r un dyletswydd tribiwnlys prisio.

Ad-delir gwariant ar ffioedd parcio, tollau neu gludo'r cerbyd ar fferi, o ganlyniad i gyflawni dyletswydd cymeradwy, cyn belled ag y cyflwynir tystiolaeth o'r gwariant gyda'r hawliad.

Bydd gan aelodau sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio yr hawl i hawlio'r swm a dalwyd am docyn (mae'n ofynnol cyflwyno derbynneb). Mae gan aelodau sy'n teithio mewn tacsï oherwydd angen brys yr hawl i hawlio cost hynny (rhaid cyflwyno derbynneb), fel arall y swm priodol yw'r milltiroedd a deithiwyd.

AD-DALU GWARIANT CYNHALIAETH

Mae gan aelodau'r hawl i hawlio ad-daliad gwariant ar gynhaliath (bwyd/diod dialcohol/prydau bwyd) yn sgîl cyflawni dyletswydd cymeradwy. Mae'r ad-daliadau'n ddarostyngedig i lefelau uchafswm penodol (fel y dangosir isod). Rhaid cyflwyno tystiolaeth glir y gwariant i gefnogi unrhyw hawliad.

Cynhaliath yn ystod y dydd: symiau y gellir eu hawlio am brydau bwyd

Brecwast	Gwir wariant hyd at £9.00
Cinio	Gwir wariant hyd at £9.00
Pryd gyda'r nos	Gwir wariant hyd at £27.00

LWFANS COLLED ARIANNOL

Mae gan aelodau'r hawl i hawlio lwfans nad yw'n goresgyn y swm priodol a nodir yn y tabl isod o ran colled ariannol a ddioddefwyd o ganlyniad i gyflawni dyletswydd cymeradwy. Gallai'r golled ariannol fod yn golled enillion, neu'n wariant ychwanegol angenrheidiol i alluogi bod yn bresennol ar fusnes tribiwnlys (e.e. ffioedd gwarchod plant). Mae'n rhaid i hawlwr wneud datganiad eu bod wedi wynebu colled gwirioneddol (yn hytrach na cholled potensial). Mae gweithdrefnau'n bodoli i wirio fod y colledion wedi digwydd.

Ar gyfer unrhyw ddyletswydd cymeradwy:	Aelodau hunangyflogedig (yn cynnwys elfen ar gyfer Treth Incwm)	Yr holl aelodau eraill (nid yw'r lwfans yn drethadwy)
(a) nad yw dros 4 awr	£45.65	£34.69
(b) dros 4 awr ond nid 24 awr	£91.30	£69.38
(c) mwy na 24 awr	Mae'r swm sy'n ddyledus am bob cyfnod o 24 awr fel yn rhes (b) ynghyd â'r swm a nodir yn y Tabl fel y swm priodol ar gyfer gweddill y cyfnod.	

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU – LEFELAU SGILIAU CYMRAEG

Maes iaith	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Gwranddo / Siarad:	Medru ynganu enwau Cymraeg yn gywir (yn cynnwys enwau cyntaf, cyfenwau ac enwau lleoedd). Medru cyfarch defnyddwyr y tribiwnlys yn ddwyieithog a dechrau a gorffen sgysiau'n ddwyieithog gan ddefnyddio ymadroddion syml wedi'u hymarfer.	Medru deall sgwrs Gymraeg ar gyflymder cymedrol a medru gwneud cyfraniad achlysurol. Medru gwneud datganiadau sylfaenol byr a gofyn cwestiynau syml.	Medru deall a chymryd rhan mewn sgysiau Cymraeg. Medru cynnig ymateb i ymholiadau ond gallai orfod defnyddio termau Saesneg yn achlysurol.	Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd. Medru deall gwahanol acenion a thonau; medru dadlau o blaid ac yn erbyn syniad neu safiad; medru gofyn ac ateb cwestiynau manwl.	Medru cyfrannu'n rhugl, gyda hyder, ar bob agwedd o fusnes y sefydliad a mynegi barn gymhleth yn glir ac heb oedi. Medru cyfieithu'n effeithiol ar gyfer eraill.
Darllen:	Medru deall arwyddion a labeli byr yn y gweithle. Medru deall ymadroddion ysgrifenedig byr iawn eraill a brawddegau byr iawn weithiau.	Medru deall swm arwyddocaol mewn dogfennau cryno o gael amser digonol a defnyddio pecynnau iaith.	Medru deall y rhan fwyaf o ohebiaeth a deunyddiau busnes eraill. Gall fod angen defnyddio pecynnau iaith ar gyfer geirfa lefel uchel neu dechnegol.	Medru deall gohebiaeth ffurfiol ac adroddiadau byr.	Medru deall dogfennau ffurfiol cymhleth.
Ysgrifennu:	Medru ysgrifennu enwau lleoedd ac enwau personol Cymraeg yn gywir. Medru cynnwys ymadroddion Cymraeg syml mewn negeseuon (e.e. mewn negeseuon e-bost, testun, nodiadau gludiog ac ati).	Medru ysgrifennu negeseuon ac e-bost cryno gan ddefnyddio brawddegau syml.	Medru ysgrifennu dogfennau byr a nodiadau gan ddefnyddio pecynnau iaith yn achlysurol.	Medru cynhyrchu negeseuon e-bost a dogfennau arddull sgwrs, gramadegol gywir, gan ddefnyddio pecynnau iaith yn achlysurol. Medru cadw cofnodion ansawdd da mewn cyfarfodydd.	Medru cynhyrchu dogfennau ffurfiol i safon uchel iawn gyda defnydd isafswm pecynnau iaith. Medru cyfieithu'r hyderus ac yn gywir gan ddefnyddio'r arddull a'r tôn priodol.